Sut all Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol eich helpu chi?

Mae Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol yn eiriolwr profiadol sydd wedi ei hyfforddi. Mae'n annibynnol, sy'n golygu eu bod ar wahân i'ch timau meddygol a gofal cymdeithasol ac yn gweithio i sefydliad gwahanol.



Ni wnaiff EIMA ddweud wrthych chi beth sy'n iawn ar eich cyfer chi yn eu tyb nhw, ond eich helpu i benderfynu beth rydych chi eisiau ei wneud. Fe fyddan nhw'n gweithredu ar eich cyfarwyddiadau chi'n unig ac ni fyddan nhw'n eich beirniadu. Gall EIMA weithio hefyd â phobl sy'n methu â rhoi cyfarwyddiadau.

I gael gwybod mwy am EIMA Gogledd Cymru yn eich ardal chi cysylltwch â'r rhifau canlynol:

Gwynedd ac Ynys Môn
advocacy@mhas.co.uk 01248 354127

Conwy a Sir Ddinbych
admin@cadmhas.co.uk 01745 816501

Sir y Fflint a Wrecsam
imha@asnew.org.uk 01352 759175

Mae gwasanaeth yr EIMA yn annibynnol, am ddim, yn gyfrinachol ac ni fydd yn barnu

Pethau swyddogol...

Clod neu gwynion
Bydd gwasanaeth EIMA yn gwerthfawrogi sylwadau ac adborth y rheiny sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Siaradwch â'ch eiriolwr neu ffoniwch un o'r rhifau uchod i gael gwybod sut y gallwch chi wneud hynny.

Advocacy QPM AWARD

Advocacy
Q P M
Quality Services